Cyllid ôl-raddedig
Meistr

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Nodiadau Cefnogol Ceisiadau Myfyrwyr Parhau

## Ynglŷn â'r nodiadau hyn

Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i gwblhau'ch 'Ffurflen Cais am Fyfyriwr Parhaus Meistr Ôl-raddedig'.

Gallwch hefyd ymgeisio ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/myfyrwyr-ol-raddedig**

## Sut i ddefnyddio'r nodiadau hyn

Ble gwelwch hyn yn eich ffurflen Cais am Fyfyriwr Parhaus Meistr Ôl-raddedig, mae'n golygu fod yna wybodaeth ychwanegol yn y nodiadau hyn i'ch helpu neu'ch cynghori.

Gallai hyn fod yn wybodaeth am sut i ateb cwestiwn neu adran neu gyfarwyddyd i anfon dogfennau ategol penodol.

Mae'r nodiadau hyn mewn adrannau ac wedi eu rhifo yn yr un modd â'r cwestiynau yn y ffurflen gais.

Darllenwch y nodiadau hyn – os na fyddwch chi'n ateb cwestiwn neu adran yn gywir neu os na fyddwch chi'n cynnwys y dogfennau rydym eu hangen, bydd unrhyw daliad yn cael ei oedi.

## Fformatau amgen

Mae'n ffurflenni a chanllawiau i gyd ar gael mewn Braille, print mawr neu sain. Os ydych chi angen y rhain, gallwch ofyn amdanynt trwy e-bostio eich enw, cyfeiriad a manylion y fformat rydych ei angen i: **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu ffonio **0141 243 3686** (dim ond gyda cheisiadau am fformatau amgen y defnyddir y rhif hwn).

# Adran 1 Eich manylion

**1.1 Newid enw**

Os yw'ch enw wedi newid ers y cyhoeddwyd eich pasbort neu dystysgrif geni, bydd angen i chi brofi fod eich enw wedi newid yn gyfreithiol.

**Mae angen i chi anfon un o'r canlynol i ni:**

- eich gweithred newid enw; neu
- eich tystysgrif briodas neu ddogfennaeth partneriaeth sifil; neu
- eich tystysgrif ysgariad neu orchymyn diddymiad.
- eich amodol neu gorchymyn terfynol; neu
- eich tystysgrif ysgariad neu orchymyn diddymiad

**1.5 Rhif Yswiriant Gwladol**

Bydd unrhyw daliad o'ch benthyciad yn cael ei ddal yn ôl nes i chi ddarparu eich rhif Yswiriant Gwladol y Deyrnas .

Os nad ydych chi erioed wedi cael rhif Yswiriant Gwladol, gadewch y blwch rhif Yswiriant Gwladol yn wag. Byddwn yn cysylltu â chi os byddwn angen gweithredu i gael rhif Yswiriant Gwladol. Yn y cyfamser , os byddwch yn cael rhif Yswiriant Gwladol, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

# Adran 2 Eich astudio blaenorol

**2.2 Cymwysterau ôl-raddedig blaenorol**

Os oes gennych chi:

- Radd doethuriaeth; neu
- Radd Meistr; neu
- Radd Meistr Integredig; neu
- fersiwn dramor gyfatebol o unrhyw un o'r uchod

**nid ydych yn gymwys i dderbyn Cyllid Meistr Ôl-raddedig.**

Os oes gennych chi:

- Diploma Ôl-Raddedig; neu
- Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR); neu
- Tystysgrif Ôl-Raddedig; neu
- Gradd Meistr er Anrhydedd; neu
- fersiwn dramor gyfatebol o unrhyw un o'r uchod

**efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig.**

Nid ydym angen unrhyw brawf o'ch cymwysterau ar hyn o bryd, ond efallai y byddwn yn gofyn amdanynt yn y dyfodol.

# Adran 3 Eich cwrs Meistr Ôl-raddedig

**3.2 Math o astudio a hyd**

Gall myfyrwyr Meistri Ôl-raddedig astudio eu cwrs dros nifer amrywiol o flynyddoedd. Bydd cwrs amser llawn yn cael ei rannu dros 1 – 2 o flynyddoedd, ond gall cwrs rhan-amser barhau am hyd at 4 blynedd.

Bydd hyn yn effeithio ar faint o gyllid a dderbyniwch bob blwyddyn yn bennaf, gan fod y cyfanswm y dewiswch ei fenthyca wedi ei ledaenu drwy gydol hyd eich cwrs.

Mae'r cyrsiau canlynol yn gymwys am gyllid gennym:

- cwrs amser llawn yn parhau un neu dwy flynedd academaidd;
- cwrs rhan-amser yn parhau dwy, tair neu bedair blynedd academaidd.

**3.3 Bwrsariaeth y GIG**

Nid yw myfyrwyr yn gymwys i gael Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig os ydynt yn derbyn bwrsariaeth y GIG. Os nad ydych chi'n siŵr a allwch chi ymgeisio am hyn, bydd angen i siarad gyda'ch prifysgol.

Os ydych chi wedi ymgeisio am hyn a chael eich gwrthod, mae angen i chi anfon eich llythyr gwrthodiad gyda'ch cais. Ni allwn dderbyn eich cais heb hyn.

**3.4 Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol**

Nid yw myfyrwyr yn gymwys i gael Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig os gallant gael bwrsariaeth gwaith cymdeithasol. Os nad ydych chi'n siŵr a allwch chi ymgeisio am hyn, bydd angen i siarad gyda'ch prifysgol.

### 3.5 Dysgu o Bell

Os nad ydych chi'n astudio dysgu o bell oherwydd eich bod chi neu aelod o'r teulu yn y lluoedd arfog, rhaid i chi fod yn byw yn Lloegr ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs i fod yn gymwys i gael Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig.

**Lluoedd Arfog**

**A ydych chi'n astudio ar gwrs dysgu o bell oherwydd eich bod chi neu aelod o'ch teulu yn y lluoedd arfog?**

Efallai y byddwch yn gymwys i gael cefnogaeth i astudio cwrs dysgu o bell os ydych chi neu aelod o'ch teulu yn gwasanaethu yn a thu allan i'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn un o'r canlynol:

- Y Gwasanaeth Llyngesol (y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol)
- Y Fyddin
- Yr Awyrlu Brenhinol
- Yr Heddlu Milwrol Brenhinol
- Y Gyrcas gan y gallai hyn effeithio ar eich cymhwyster i gael y Cyllid hwn.

**Bydd yr aelodau teulu canlynol yn fyfyrwyr cymwys:**

- Plentyn, llys-blentyn neu blentyn mabwysiadol dan 25 oed yn byw gydag aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn gwasanaethu tu allan i Gymru
- cymar neu bartner sifil yn byw gydag aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu yn y Deyrnas Unedig neu dramor
- rhiant dibynnol yn byw gyda naill ai;
  - blentyn sy'n aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu yn y Deyrnas Unedig neu dramor
  - cymar neu bartner sifil y plentyn sy'n aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu yn y Deyrnas Unedig neu dramor

**Tystiolaeth**

**Yr hyn sydd angen i chi anfon**

Mae angen i chi anfon llythyr yn cadarnhau eich enw a'ch cyfeiriad, neu gyfeiriad Swyddfa Bost y Lluoedd Arfog.

Os oes aelod o'ch teulu yn y Lluoedd Arfog, mae angen i chi anfon llythyr yn cadarnhau'r canlynol:

- ei enw
- ei gyfeiriad neu gyfeiriad Swyddfa Bost y Lluoedd Arfog (BFPO)
- eich enw
- ei berthynas gyda chi

Rhaid i'r llythyr a anfonwch gael ei stampio, llofnodi a dyddio gan Swyddog Cofnodion Uned y Lluoedd Arfog. Ni allwn dderbyn llungopi. Rydym yn argymell eich bod yn defnyddio eich cyfeiriad BFPO ar gyfer pob gohebiaeth.

### 3.6 Ysgoloriaeth Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS2)

Nid yw myfyrwyr yn gymwys i gael Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig os ydynt yn cael Ysgoloriaeth Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS2). Os nad ydych chi'n siŵr a allwch chi ymgeisio am hyn, bydd angen i siarad gyda'ch prifysgol neu goleg.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio

**4.1 & 4.2 Gwladolyn y DUI**

Rydych chi'n wladolyn y Deyrnas Unedig os oes gennych chi basbort y Deyrnas Unedig neu os ydych chi'n gymwys i ymgeisio am un.

Os ydych chi wedi darparu eich manylion pasbort y Deyrnas Unedig yn adran 4, nid oes angen i chi anfon rhagor o dystiolaeth o'ch cenedligrwydd y Deyrnas Unedig.

**Os yw wedi dod i ben, neu ar fin dod i ben, mae angen i chi anfon:**

- eich tystysgrif geni neu fabwysiadu wreiddiol

**Lluoedd arfog**

Os ydych chi, eich rhiant neu rieni neu bartner yn aelodau o'r lluoedd arfog, rhaid i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr yn y wlad yn y Deyrnas Unedig ble roeddech yn byw fel arfer pan wnaethoch chi/nhw ymrestru, oni bai eich bod yn byw yn barhaol mewn ardal arall o'r Deyrnas Unedig.

Gallwch dderbyn copïau ardystiedig o'ch tystiolaeth preswylio, wedi ei stampio â stamp eich uned. Dylech ddefnyddio eich cyfeiriad BFPO ar gyfer pob gohebiaeth.

**4.3 Gwladolyn Gwyddelig**

Rhaid i chi anfon eich pasbort Gweriniaeth Iwerddon neu gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol.

Os oes gennych chi basbort y DU, dylech ddarparu eich manylion pasbort yn adran 4 gan nad oes angen i chi anfon rhagor o dystiolaeth o'ch cenedligrwydd.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.4 Aelod o deulu gwladolyn y DU**

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr, gwraig, partner sifil;
- plentyn neu lysblentyn

i wladolyn y DU.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn aelod o deulu gwladolyn y DU trwy anfon ei basbort/phasbort.

Rhaid i chi hefyd anfon prawf o'ch perthynas i'r gwladolyn y DU.

Gallai hyn fod:

- eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil; **neu**
- dystysgrif geni yn dangos eich enw ac enw'r gwladolyn y DU; **a**
- thystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil os ydych chi neu'r gwladolyn y DU yn llysblentyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel llysblentyn i wladolyn y DU, golyga'r term 'plentyn' rywun 'dan 21 oed; neu ddibynyddion yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.'

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.5 & 4.6 Aelod o deulu gwladolyn Gwyddelig neu berson o Ogledd Iwerddon**

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr, gwraig, partner sifil;
- riant, llys-riant;
- plentyn neu lysblentyn

i berson sy'n wladolyn Gogledd Iwerddon neu Wyddelig.

Os ydych yn blentyn, yn llysblentyn neu'n ddisgynnydd uniongyrchol arall rhaid i chi fod o dan 21 oed neu'n ddibynnol ar y person sy'n hanu o Ogledd Iwerddon neu aelod o'r teulu sy'n wladolyn Gwyddelig.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵr neu wyres, gor-ŵr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Diffinnir perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol fel rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid biolegol ac ati i unigolyn. Rydych chi'n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, ŵr neu wyres, gor-ŵr neu or wyres ac ati.

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i gadarnhau bod eich aelod o'r teulu yn berson o Ogledd Iwerddon a'ch perthynas i'r aelod o'r teulu trwy anfon ei basbort Gweriniaeth Iwerddon neu'r Deyrnas Unedig gwreiddiol a'ch tystysgrif geni neu dystysgrif priodas sy'n dangos eich perthynas i'r unigolyn.

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i gadarnhau bod eich aelod o'r teulu yn wladolyn Gwyddelig a'ch perthynas i'r aelod o'r teulu trwy anfon ei basbort Gweriniaeth Iwerddon gwreiddiol a'ch tystysgrif geni neu dystysgrif priodas sy'n dangos eich perthynas i'r unigolyn.

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad statws Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE gan y Swyddfa Gartref i ni, gyda chod rhannu. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu' cod. Yn dilyn ei greu, bydd y cod yn dod i ben wedi 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth a'ch manylion preswylio gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas.

Byddwn dal angen tystiolaeth hunaniaeth arnom o hyd gan eich gŵ, gwraig, partner sifil, rhiant, llys-riant, perthynas esgynnol uniongyrchol, plentyn, llysblentyn neu ddisgynnydd uniongyrchol

**4.7 Statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr, gwraig, partner sifil;
- riant, llys-riant;
- plentyn neu lysblentyn i wladolyn yr UE.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵr neu wyres, gor-ŵr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Diffinnir perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol fel rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid biolegol ac ati i unigolyn. Rydych chi'n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, ŵr neu wyres, gor-ŵr neu or wyres ac ati.

Bydd angen i chi anfon eich pasbort dilys, neu gerdyn adnabod cenedlaethol dilys (os yw hyn yn rhoi prawf o'ch cenedligrwydd).

Byddwch hefyd angen profi eich perthynas i'ch aelod o'r teulu trwy anfon ei gerdyn adnabod cenedlaethol neu basbort a'ch tystysgrif geni neu dystysgrif priodas (os yw hyn yn dangos prawf o'i genedligrwydd a'ch perthynas i'r unigolyn).

I brofi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cod rhannu i ni. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r cod. Yn dilyn ei greu, bydd y cod yn dod i ben wedi 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

**4.8 Gwladolyn yr UE, aelod o deulu gwladolyn yr UE, gwladolyn y DU, neu aelod o deulu gwladolyn y DU sy'n byw yn Gibraltar**

**Gwladolyn y DU**

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵ, gwraig, partner sifil;
- plentyn, llysblentyn neu ddisgynnydd uniongyrchol

arall (rhaid i chi fod o dan 21 oed neu'n ddibynnol ar wladolyn y DU) i wladolyn y DU sy'n preswylio yn Gibraltar.

Os ydych yn wladolyn y DU, rhaid i chi anfon eich pasbort DU gwreiddiol, neu dystysgrif geni neu fabwysiadu wreiddiol y DU.

Os ydych yn aelod o deulu gwladolyn y DU, rhaid i chi:

- anfon eich pasbort dilys, neu dystysgrif geni neu abwysiadu wreiddiol;
- darparu tystiolaeth i gadarnhau bod aelod o'ch teulu yn wladolyn y DU; a
- phrofi eich perthynas â'ch aelod teulu sy'n wladolyn

y DU trwy anfon ei basbort DU gwreiddiol, neu dystysgrif geni neu fabwysiadu wreiddiol o'r DU a'ch tystysgrif geni neu dystysgrif priodas (os yw hyn yn dangos prawf o genedligrwydd yn y DU a'ch perthynas ag ef/hi).

**Gwladolyn UE**

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵ/gwraig/partner sifil;
- rhiant (neu rieni)/llys-riant (neu llys-rieni) neu berthynas uniongyrchol esgynnol arall;
- plentyn neu lysblentyn neu ddisgynnydd uniongyrchol arall (rhaid bod dan 21 oed neu'n ddibynnol ar wladolyn yr UE)

gwladolyn yr UE sy'n byw yn Gibraltar. Os ydych yn wladolyn yr UE, rhaid i chi anfon eich pasbort UE dilys, neu gerdyn adnabod cenedlaethol dilys (os yw hyn yn brawf o'ch cenedligrwydd UE).

Os ydych yn aelod o deulu gwladolyn yr UE, rhaid i chi:

- anfon eich pasbort dilys, neu gerdyn adnabod cenedlaethol dilys (os yw hyn yn rhoi prawf o'ch cenedligrwydd);
- darparu tystiolaeth i gadarnhau bod aelod o'ch teuluyn wladolyn yr UE; a
- phrofi eich perthynas â'ch aelod teulu sy'n wladolyn yr UE trwy anfon ei gerdyn/cherdyn adnabod cenedlaethol neu basbort a'ch tystysgrif geni neu dystysgrif priodas (os yw hyn yn dangos prawf o genedligrwydd yn yr UE a'ch perthynas ag ef/hi).

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

## 4.9 Plentyn gwladolyn y Swistir

I gaelCyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig fel plentyn gwladolyn y Swistir, rhaid i'ch rhiant sy'n wladolyn y Swistir fod yn byw/wedi byw yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf.

- Diwrnod cyntaf eich blwyddyn academaidd yw:
- 1 Medi, os yw'ch cwrs yn cychwyn ar neu wedi 1 Awst a chyn 1 Ionawr;
- 1 Ionawr, os yw'ch cwrs yn cychwyn ar neu wedi 1 Ionawr a chyn 1 Ebrill;
- 1 Ebrill , os yw'ch cwrs yn cychwyn ar neu wedi 1 Ebrill a chyn 1 Gorffennaf;
- 1 Gorffennaf, os yw'ch cwrs yn cychwyn ar neu wedi 1 Gorffennaf a chyn 1 Awst.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gwladolyn y Swistir, rhaid bod gan eich rhiant neu lys-riant statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, a bod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd.

Rydym angen llythyr wedi ei lofnodi gan eich rhiant Swisaidd yn datgan ei gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, a'i fod yn byw yno ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf.

Rhaid i'r rhiant hefyd anfon un o'r dogfennau canlynol:

- datganiad banc
- slip cyflog
- cytundeb tenantiaeth/datganiad morgais
- bil cyfleustodau
- gohebiaeth gan awdurdod lleol
- gohebiaeth gan adran llywodraeth

Rhaid bod gennych chi statws preswylydd cyn-sefydlog ac yn preswylio fel arfer yn y DU, Gibraltar, yr AEE neu'r Swistir am y tair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

I brofi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cod rhannu i ni. I brofi statws mewnfudo eich rhiant neu lys-riant, mae angen i chi ddarparu ei ddyddiad/dyddiad geni a chod rhannu i ni. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r codau. Yn dilyn eu creu, bydd y codau'n dod i ben wedi 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth a'ch manylion preswylio gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas.

### 4.10 Gweithiwr o'r AEE neu'r Swistir

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad statws Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE gan y Swyddfa Gartref i ni, gyda chod rhannu. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r cod. Yn dilyn ei greu, bydd y cod yn dod i ben wedi 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth a'ch manylion preswylio gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas.

Nid oes angen i chi ddarparu cod rhannu os:

- ydych chi'n ddinesydd Gwyddelig; neu
- mae gennych chi hawlen Gweithiwr y Ffin.

**Mae angen i chi anfon:**

- ffurflen Statws Cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig.

Mae'r 'ffurflen Statws Cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig' ar gael i'w lawrlwytho o **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Gallwch lenwi a dychwelyd y ffurflen atodol hon ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth ategol gyda'r brif ffurflen gais i sicrhau bod eich cyllid yn ei le cyn gynted â phosibl.

Os na allwch ddychwelyd eich ffurflen atodol gyda'ch prif ffurflen gais, dylech ei hanfon atom cyn gynted â phosibl. Ni fyddwn yn gallu cadarnhau y gallwch gael Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig heb y ffurflen atodol hon wedi ei llenwi.

**4.11 Aelod o’r teulu gwladolyn Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu gwladolyn Swisaidd**

I fod yn aelod o’r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵ, gwraig, partner sifil;
- riant (neu rieni), llys-riant;
- plentyn neu lysblentyn i wladolyn yr AEE neu’r Swistir.
- aelod o’r teulu arall mewn llinell esgynnol neu ddisgynnol

uniongyrchol (ddim ond yn berthnasol i aelodau’r teulu sy’n weithwyr AEE) y gwladolyn AEE neu Swisaidd.

Os ydych chi’n rhiant neu berthynas llinell esgynnol uniongyrchol arall i’r gweithiwr, rhaid eich bod yn ddibynnol arnynt.

Ar gyfer plant gweithwyr o’r AEE, golyga’r term ‘plentyn’ rywun ‘dan 21 oed; neu ddibynyddion yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.’ Nid yw hyn yn berthnasol mewn achosion ble mae’r rhiant gweithiwr AEE wedi marw neu adael y DU a bod y plentyn yn aros ymlaen i gwblhau ei addysg yn y DU.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵr neu wyres, gor-ŵr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi’n ddisgynnydd uniongyrchol i’ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Diffinnir perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol fel rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid biolegol ac ati i unigolyn. Rydych chi’n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, ŵr neu wyres, gor-ŵr neu or-wyres ac ati.

I brofi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cod rhannu i ni. I brofi statws mewnfudo eich aelod o’r teulu, mae angen i chi ddarparu ei ddyddiad/dyddiad geni a chod rhannui ni. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu’ codau.Yn dilyn eu creu, bydd y codau’n dod i ben wedi 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda’r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi’n rhoi’ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhywdystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o’ch perthynas.

Byddwn yn dal angen tystiolaeth hunaniaeth gan eich aelod o’r teulu.

Nid oes angen i aelod o’ch teulu ddarparu cod rhannu os:

- yw’n wladolyn Gwyddelig; neu
- mae ganddo/ganddi drwydded gweithiwr ffin neu dystiolaeth i ddangos ei fod/bod yn weithiwr ffin.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

### 4.11 Aelod o'r teulu gwladolyn Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu gwladolyn Swisaidd - parhad

**Mae angen i chi anfon:**

- ffurflen Statws Cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig

Mae'r 'ffurflen Statws Cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig' ar gael i'w lawrlwytho o **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Gallwch lenwi a dychwelyd y ffurflen atodol hon ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth ategol gyda'r brif ffurflen gais i sicrhau bod eich cyllid yn ei le cyn gynted â phosibl.

Os na allwch ddychwelyd eich ffurflen atodol gyda'ch prif ffurflen gais, dylech ei hanfon atom cyn gynted â phosibl. Ni fyddwn yn gallu cadarnhau y gallwch gael Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig heb y ffurflen atodol hon wedi ei llenwi.

### 4.12 Plentyn i weithiwr o Dwrci sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig

I ymgeisio am fenthyciad fel plentyn gweithiwr o Dwrci, rhaid bod eich rhiant o Dwrci yn gweithio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs.

Rhaid eich bod hefyd yn byw yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs ac wedi byw yn y Deyrnas Unedig, yr AEE, Twrci neu'r Swistir am 3 blynedd cyn dechrau eich cwrs.

**Mae'n rhaid i chi brofi eich hunaniaeth, anfonwch:**

• eich pasbort gwreiddiol dilys

**Mae hefyd angen i chi anfon prawf o genedligrwydd eich rhiant o Dwrci, anfonwch un o'r canlynol i ni:**

• ei basbort dilys gwreiddiol; **neu**

• ei gerdyn adnabod cenedlaethol cyfredol

**Ac ar gyfer prawf o'ch perthynas , anfonwch:**

• dystysgrif geni

**Byddwch hefyd angen anfon prawf o gyflogaeth eich rhiant o Dwrci yn y Deyrnas Unedig, er enghraifft anfonwch:**

• gontract cyflogaeth

**Ac** mae hefyd angen i chi anfon prawf eich rhiant o Dwrci o'r estyniad o'i Hawl i Aros yn y Deyrnas Unedig wedi 31 Rhagfyr 2020 gan y Swyddfa Gartref.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

## 4.13 Statws preswylydd heb ei ganiatáu dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Mae 'statws preswylydd sefydlog' yn golygu eich bod yn gallu byw yn y DU yn barhaol heb i'r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ynghylch hyd eich cyfnod yma.

Rydych yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau os yw un o'r canlynol yn gymwys:

- rydych yn ddinesydd Prydeinig;
- mae gennych 'hawl preswylio parhaol' yn y DU;
- rhoddwyd 'caniatâd i aros am amser amhenodol' i chi;
- mae gennych hawl i gartrefu yn y DU.

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch hawl preswylio parhaol a materion eraill sy'n ymwneud â mewnfudo gan y Swyddfa Gartref.

**Rhaid i chi brofi eich statws presennol, anfonwch un o'r canlynol i ni:**

• eich pasbort y Deyrnas Unedig dilys neu lythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau eich statws mewnfudo; **neu**

• eich Caniatâd Preswylio Biometrig dilys.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

## 4.14 Y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS)

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil;
- rhiant neu lys-riant

wedi cael caniatâd dan y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS), byddwch wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau hyn.

**Mae'n rhaid i chi brofi eich hunaniaeth, anfonwch**

- Dogfen deithio ddilys wreiddiol y Swyddfa Gartref; **neu**
- Hawlen Breswylio Fiometrig wreiddiol; **neu**
- Basbort gwreiddiol dilys.

**Rhaid i chi hefyd anfon un o'r canlynol fel prawf statws preswylio:**

- Dogfen deithio wreiddiol y Swyddfa Gartref; **neu**
- Hawlen Breswylio Fiometrig wreiddiol; **neu**
- Dogfen Statws Mewnfudo wreiddiol; **neu**
- Lythyr gwreiddiol gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau'r categori caniatâd a'r dyddiad pan roddwyd hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.
Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl csydd â'r statwshwn os nad chi sydd â'r statws:

- dystysgrif geni neu briodi.

**Cynllun Ex-Gratia Staff Affganaidd a Gyflogwyd yn Lleol**

Mae'r cynllun hwn ar gyfer gweithwyr blaenorol llywodraeth y Deyrnas Unedig a ymddiswyddodd neu a ddiswyddwyd o'u swydd. Nid yw gwladolion Affganaidd sydd wedi eu hail-leoli i'r Deyrnas Unedig dan y cynllun hwn yn gymwys i dderbyn cyllid i fyfyrwyr.

**4.15 Caniatâd mynediad neu aros cyfyngedig dan Gynllun**

**Wcráin Rhaid i chi brofi eich statws presennol, anfonwch un o'r canlynol i ni:**

- eich Caniatâd Preswylio Biometrig dilys; **neu**
- eich pasbort dilys gyda vignette; **neu**
- eich dogfen caniatâd i deithio.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn. Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

I brofi eich bod wedi cael caniatâd yn y DU o dan Gynllun Wcráin mae angen i chi roi cod rhannu i ni. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu cod.

Yn dilyn ei greu, bydd y cod yn dod i ben wedi 90 niwrnod. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais cyn gynted â phosibl ar ôl cynhyrchu'r cod rhannu.

Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth.

Os nad oes gennych god rhannu, dylech ddarparu tystiolaeth i gadarnhau eich statws mewnfudo.

Anfonwch eich Trwydded Breswylio Fiometrig atom. Os nad oes gennych Drwydded Preswylio Fiometrig, dylech anfon eich pasbort gyda phortread yn cadarnhau eich caniatâd neu'ch dogfen 'caniatâd i deithio'.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig neu ddogfen 'caniatâd i deithio', ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

## 4.16 Statws ffoadur

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant

wedi gwneud cais llwyddiannus am statws ffoadur yn y Deyrnas Unedig dan amodau Confensiwn 1951 y Cenhedloedd Unedig yn ymwneud â Statws Ffoaduriaid, a'ch bod chi, neu nhw, wedi cael statws ffoadur, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw, sy'n cadarnhau hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn ffoadur, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i'r Swyddfa Gartref fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil ffoadur, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais am loches.

**Os ydych chi wedi derbyn statws ffoadur, anfonwch:**

- llythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau eich statws a dogfen statws mewnfudo, er enghraifft:
- eich pasbort gwreiddiol; **neu**
- eich Caniatâd Preswylio Biometrig dilys.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Os oes aelod o'ch teulu wedi derbyn statws ffoadur, anfonwch:**

- llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau ei statws **a** dogfen statws mewnfudo yn dangos ei statws ffoadur, er enghraifft:
- ei basbort gwreiddiol; **neu**
- eu Caniatâd Preswylio Biometrig dilys.

Dim ond er mwyn dilysu ei hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio ei Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Bydd hefyd angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas, anfonwch:**

- dystysgrif geni neu briodi.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

### 4.17 Diogelwch Dyngarol

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil
- riant (neu rieni), llys-riant

wedi cael Diogelwch Dyngarol, byddwch chi, neu nhw, wedi derbyn llythyr a dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn person sydd wedi derbyn statws Amddiffyniad Dyngarol, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn statws Amddiffyniad Dyngarol, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Os ydych chi wedi derbyn Amddiffyniad Dyngarol, anfonwch:**

- lythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau eich statws a dogfen statws mewnfudo, er enghraifft:
- eich pasbort gwreiddiol; **neu**
- eich Caniatâd Preswylio Biometrig dilys.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Os oes aelod o'ch teulu wedi derbyn Diogelwch Dyngarol, anfonwch:**

- lythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau ei statws a dogfen statws mewnfudo yn dangos ei statws, er enghraifft:
- ei basbort gwreiddiol; **neu**
- eu Caniatâd Preswylio Biometrig dilys.

Dim ond er mwyn dilysu ei hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio ei Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Bydd hefyd angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas, anfonwch:**

- dystysgrif geni neu briodi.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

## 4.18 Person heb Wladwriaeth

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn person sydd wedi derbyn statws 'caniatâd i aros' fel Person heb Wladwriaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' fel Person heb Wladwriaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais

**Os ydych chi wedi derbyn Caniatâd i Aros fel Person heb Wladwriaeth, anfonwch:**

- llythyr gan y Swyddfa Gartref a Chaniatâd preswylio biometrig.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Os oes aelod o'ch teulu wedi derbyn Caniatâd i Aros fel Person heb Wladwriaeth, anfonwch:**

- tystiolaeth i gadarnhau eich perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn y statws Person heb Wladwriaeth.
- llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau ei statws a dogfen statws mewnfudo yn dangos ei statws, er enghraifft:
- ei basbort gwreiddiol; neu
- eu Caniatâd Preswylio Biometrig dilys.

Dim ond er mwyn dilysu ei hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio ei Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

## 4.19 Caniatâd mynediad neu aros

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant

wedi derbyn statws 'Caniatâd mynediad neu aros' bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw sy'n cadarnhau hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn person sydd wedi derbyn statws 'Caniatâd mynediad neu aros', dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn statws 'Caniatâd mynediad neu aros', rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais am ganiatâd i aros.

**Os ydych chi wedi cael un o'r statysau 'Caniatâd mynediad neu aros' a restrir yn y cwestiwn hwn, anfonwch:**

- llythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau eich statws a dogfen statws mewnfudo, er enghraifft:
- eich pasbort gwreiddiol; neu
- eich Caniatâd Preswylio Biometrig dilys.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Os yw eich aelod o'ch teulu wedi derbyn un o'r statysau 'Caniatâd mynediad neu aros' a restrir yn y cwestiwn hwn, anfonwch:**

- llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau ei statws a dogfen statws mewnfudo yn dangos ei statws ffoadur, er enghraifft:
- ei basbort gwreiddiol; neu
- eu Caniatâd Preswylio Biometrig dilys.

Dim ond er mwyn dilysu ei hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio ei Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Bydd hefyd angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas, anfonwch:**

- dystysgrif geni neu briodi.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

### 4.20 Caniatâd i aros fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn 'Caniatâd i Aros' yn y Deyrnas Unedig fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

**Os rhoddwyd Caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig i chi fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig, anfonwch:**

- llythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau eich statws a dogfen statws mewnfudo, er enghraifft:
- eich Hawlen Breswylio Fiometrig

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Os ydych chi'n blentyn dibynnol i rywun sydd wedi derbyn caniatâd mynediad neu i aros yn y DU fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig, anfonwch:**

- llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau ei statws a dogfen statws mewnfudo, er enghraifft:
- ei Hawlen Breswylio Fiometrig

Dim ond er mwyn dilysu ei hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio ei Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Bydd hefyd angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas, anfonwch:**

- dystysgrif geni.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

### 4.21 Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016

**Os ydych chi wedi cael Caniatâd i Aros yn y Deyrnas Unedig dan adran 67 Deddf Mewnfudo 2016, anfonwch:**

- llythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau eich statws a dogfen statws mewnfudo, er enghraifft:
- eich Hawlen Breswylio Fiometrig

Dim ond er mwyn dilysu hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Os ydych chi'n blentyn dibynnol i rywun sydd wedi derbyn Caniatâd i Aros yn y DU adran 67 Deddf Mewnfudo 2016, anfonwch:**

- llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau ei statws a dogfen statws mewnfudo, er enghraifft:
- ei Hawlen Breswylio Fiometrig

Dim ond er mwyn dilysu ei hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio ei Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Bydd hefyd angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas, anfonwch:**

- dystysgrif geni.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

# Adran 4 Eich gwybodaeth preswylio – parhad

## 4.22 Caniatâd Calais

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd Calais, dim ond os rhoddwyd caniatâd i chi yn unol â'ch rhiant neu lys-riant fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

**Os ydych chi wedi derbyn 'Caniatâd Calais' yn y DU, anfonwch:**

- llythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n cadarnhau eich statws **a** dogfen statws mewnfudo, er enghraifft:
- eich pasbort gwreiddiol; **neu**
- eich Caniatâd Preswylio Biometrig dilys.

Dim ond er mwyn dilysu hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Os oes aelod o'ch teulu wedi derbyn 'Caniatâd Calais' anfonwch:**

- llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau ei statws a dogfen statws mewnfudo yn dangos ei statws, er enghraifft:
- ei basbort gwreiddiol; **neu**
- eu Caniatâd Preswylio Biometrig dilys.

Dim ond er mwyn dilysu ei hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio ei Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Bydd hefyd angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas, anfonwch:**

- dystysgrif geni.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

## 4.23 Partner mewn profedigaeth

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn 'Caniatâd i aros' yn y DU fel partner mewn profedigaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

**Os rhoddwyd caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig i chi neu eich rhieni / llys rieni fel partner mewn profedigaeth, bydd angen i chi anfon:**

- llythyr gwreiddiol gan y Swyddfa Gartref i chi/nhw a Chaniatâd preswylio biometrig.

**Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' fel person sydd wedi bod yn bartner mewn profedigaeth os nad chi yw hyn.**

Er enghraifft:

- eich tystysgrif geni

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

# Adran 5 Eich hanes cyfeiriadau

**5.1 & 5.2 Statws preswylio**

Os oes gennych chi statws ffoadur dylech ddarparu manylion eich cyfeiriad o'r pwynt ble rhoddwyd y statws i chi neu hyd at uchafswm o dair blynedd os rhoddwyd y statws i chi cyn hynny.

| Dyddiad mae astudio yn cychwyn rhwng | Dyddiad mae'r flwyddyn academaidd yn cychwyn |
|---|---|
| 1 Awst hyd 31 Rhagfyr yn gynhwysol | 1 Medi |
| 1 Ionawr hyd 31 Mawrth yn gynhwysol | 1 Ionawr |
| 1 Ebrill hyd 30 Mehefin yn gynhwysol | 1 Ebrill |
| 1 Gorffennaf hyd 31 Gorffennaf yn gynhwysol | 1 Gorffennaf |

## Adran 8 Telerau ac amodau

**Atwrneiaeth**

Os na allwch chi lofnodi'r ffurflen, rhaid ei llofnodi ar eich rhan gan eich Atwrnai. Rhaid anfon llythyr Atwrneiaeth gyda'r cais cyn y derbynnir llofnod gan yr Atwrnai hwnnw.

## Adran 9 Myfyriwr dibynnol neu annibynnol

**9.1 A oeddech chi'n 24 oed neu'n iau ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs ac ar unrhyw adeg o 14 oed hyd at ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs rydych chi:**

- **heb fod dan ofal cyfreithiol eich rheini am 13 wythnos neu fwy; neu**
- **wedi bod dan orchymyn gwarchodaeth arbennig; neu**
- **wedi bod yng nghystodaeth neu ofal cyfreithiol, neu wedi derbyn llety gan, Awdurdod Lleol am 13 wythnos neu fwy**

A fyddech gystal â darparu **un** o'r canlynol:

- Dogfennau cadarnhau gorchymyn gofal
- llythyr gan 'Groesawfa' neu gynllun llety â chymorth arall
- llythyr wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan unigolyn proffesiynol nad ydynt yn ffrind nac yn berthynas, sy'n nodi manylion eich sefyllfa (e.e. Meddyg). Rhaid bod yr unigolyn hwn wedi'ch adnabod am o leiaf 12 mis ac mae'n rhaid eu bod yn hollol ymwybodol o'ch amgylchiadau.

**9.2 Tystiolaeth statws priodasol dros 25**

Os ydych bellach **Wedi gwahanu**, **wedi ysgaru** neu os yw'r **bartneriaeth sifil wedi cael ei therfynu**, dylech anfon:

- eich archddyfarniad absoliwt.
- eich gorchymyn diddymu.
- llythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws.

Os ydych yn ŵr neu'n wraig weddw neu os yw'ch partner sifil wedi marw anfonwch Llungopi eu dystysgrif farwolaeth.

**9.3 A ydych chi neu a ydych chi wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf?**

**Os** ydych **yn briod** neu **mewn partneriaeth sifil** ar hyn o bryd, **dylech anfon eich**:

- tystysgrif briodas wreiddiol
- dogfennaeth partneriaeth sifil wreiddiol

Os ydych bellach **Wedi gwahanu**, **wedi ysgaru** neu os yw'r **bartneriaeth sifil wedi cael ei therfynu**, dylech anfon:

- eich archddyfarniad absoliwt.
- eich gorchymyn diddymu.
- llythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws.

Os ydych yn ŵr neu'n wraig weddw neu os yw'ch partner sifil wedi marw anfonwch Llungopi eu dystysgrif farwolaeth.

| | |
|---|---|
| **9.4 A fyddwch yn gofalu am unigolyn dan 18 oed ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyfredol?** | Anfonwch:<br>• dystysgrif geni wreiddiol y plentyn/plant<br>• thystiolaeth sy’n dangos mai chi sy’n gofalu am y plentyn, er enghraifft, tystiolaeth eich bod yn derbyn Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant neu elfen gofal plant y Credyd Cynhwysol. |
| **9.5 A ydych wedi cefnogi’ch hun yn ariannol am gyfanswm o dair blynedd neu fwy cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf?** | Anfonwch tystiolaeth o’ch incwm am 3 flwyddyn ariannol cyn dechrau’ch cwrs:<br>• ffurflenni P60<br>• slipiau cyflog Mis 12 neu Wythnos 52/53<br>• datganiad enillion gan Gyllid a Thollau EM (HMRC)<br>• datganiad enillion gan gyflogwr<br>• llythyr gan y Ganolfan Byd Gwaith leol/yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) sy’n cadarnhau cyfnodau unrhyw/yr holl hawl i gael budd-daliadau a gafwyd. |
| **9.6 A yw’n amhosibl dod o hyd i’ch rhieni neu nid yw’n rhesymol ymarferol i geisio cysylltu ânhw?** | Anfonwch:<br>• allythyr wedi’i lofnodi a’i ddyddio gan unigolyn proffesiynol nad ydynt yn ffrind nac yn berthynas, sy’n nodi manylion eich sefyllfa (e.e. Meddyg). Rhaid bod yr unigolyn hwn wedi’ch adnabod am o leiaf 12 mis ac mae’n rhaid eu bod yn llwyr ymwybodol o’ch amgylchiadau. |
| **9.7 Mae’ch rhieni yn byw tu allan i’r UE ac ni fyddai’n bosibl iddynt anfon arian i chi, neu byddai asesu eu hamgylchiadau ariannol yn creu perygl iddynt** | Anfonwch:<br>• llythyr wedi’i lofnodi a’i ddyddio gan unigolyn proffesiynol nad ydynt yn ffrind nac yn berthynas, sy’n nodi manylion eich sefyllfa (e.e. Meddyg). Rhaid bod yr unigolyn hwn wedi’ch adnabod am o leiaf 12 mis ac mae’n rhaid eu bod yn llwyr ymwybodol o’ch amgylchiadau. |
| **9.8 A ydych wedi dieithrio’n anghymodlon oddi wrth (nid oes gennych unrhyw gyswllt â eich rhieni ac ni fydd hyn yn newid?** | A fyddech gystal â darparu llythyr wedi’i lofnodi a’i ddyddio gan unigolyn proffesiynol h.y. Meddyg, Athro neu Weithiwr Cymdeithasol, sy’n cadarnhau’r canlynol:<br>• eu perthynas gyda chi<br>• hyd y cyfnod y maent wedi’ch adnabod chi<br>• y rhesymau dros eich ymwahaniad wrth eich rhieni<br>• os yw cymodi yn debygol |
| **9.9 A yw’ch dau riant wedi marw?** | Anfonwch:<br>• Dylech anfon tystysgrif(au) marwolaeth eich rhiant(rhieni)<br>• Llungopi o’ch eich tystysgrif geni |

# Adran 11 Manylion Personol – Rhiant (neu Rheini) neu Bartner

**11.1 Beth yw eich statws priodasol ar hyn o bryd?**

Os ydych bellach Wedi gwahanu, wedi ysgaru neu os yw'r bartneriaeth sifil wedi cael ei therfynu, dylech anfon:

- eich archddyfarniad absoliwt.
- eich gorchymyn diddymu.
- llythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws.

Os ydych yn ŵr neu'n wraig weddw neu os yw'ch partner sifil wedi marw anfonwch Llungopi eu dystysgrif farwolaeth.

**11.2 Dyfarniad statudol**

Mae dyfarniad statudol yn cynnwys unrhyw gefnogaeth ar gyfer cyllid cyhoeddus ar gyfer astudio ar gwrs addysg bellach/uwch, er enghraifft:

- cyllid gan Gyllid Myfyrwyr Cymru/Student Finance England/Northern Ireland neu Student Awards Agency Scotland
- Bwrsariaeth y GIG
- Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol

Os byddwch yn derbyn cyllid ar gyfer cwrs ond ddim yn gwybod a ddylech ei gynnwys, cysylltwch â'ch coleg neu brifysgol am ragor o wybodaeth.

# Adran 12 Cwestiynau ariannol

## Rhan A Eich gwybodaeth ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23

**C1 A wnaethoch chi dderbyn unrhyw incwm o enillion, cyflogau, budd-daliadau'r wladwriaeth trethadwy neu o bensiynau galwedigaethol neu breifat?**

### a Cyfanswm yr incwm o gyflogau

Dylech gyfeirio at eich P60 2022-23 neu slip cyflog terfynol ar gyfer eich incwm o gyflogau.

Os cawsoch chi gildyrnau a thaliadau eraill fel rhan o'ch cyflog ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23, nad oeddent yn ymddangos ar eich P60, bydd angen i chi gynnwys y ffigwr hwn o hyd wrth nodi cyfanswm eich incwm o gyflogaeth.

### b Budd-daliadau trethadwy'r wladwriaeth

Dylech gyfeirio at eich P60 2022-23 neu P45 gan yr Adran Waith a Phensiynau ar gyfer eich manylion budddaliadau'r wladwriaeth trethadwy. Cynhwyswch incwm a dderbyniwyd o'r budd-daliadau canlynol yn unig:

- Lwfans Profedigaeth/Pensiwn Gweddwon
- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau
- Budd-dal ymddeol graddedig
- Budd-dal Analluogrwydd (dim ond y swm a gafwyd ar ôl gwerth 28 wythnos o analluogrwydd y dylid ei gynnwys)
- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Unrhyw incwm a delir i rai ar streic neu bobl sy'n ymwneud ag anghydfod undebol
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Tâl Mabwysiadu Statudol
- Tâl Mamolaeth Statudol
- Tâl Tadolaeth Statudol
- Tâl Salwch Statudol
- Lwfans Rhiant Gweddw

Peidiwch â chynnwys incwm a geir o unrhyw fudd-daliadau eraill neu'r Credyd Cynhwysol.

### c Pensiwn galwedigaethol/preifat

Os derbynioch chi bensiwn galwedigaethol neu breifat, dylech gyfeirio at eich P60P neu ddatganiad blynyddol gan eich darparwr pensiwn.

**C3 A dderbynioch unrhyw incwm o gynilion a buddsoddiadau?**

**a Incwm gan fanciau, cymdeithasau adeiladu a chwmnïau buddsoddi yn y DU**

Nodwch swm y llog / incwm a gawsoch dan y math(au) canlynol o incwm buddsoddi a chynilion:

- Llog gros y Deyrnas Unedig (cyn didynnu treth)

Rhaid i chi gynnwys llog a dderbyniwch ar gyfrifon cynilo banc, cymdeithas adeiladu ac eraill oni bai ei fod yn benodol ddi-dreth, er enghraifft, Cyfrif Cynilo Unigol (ISA) di-dreth ac ati.

**Os na wnaethoch chi ddatgan unrhyw incwm buddsoddi a chynilion i HMRC**

Trowch at eich datganiadau banc neu gymdeithas adeiladu am y ffigurau hyn.

**b Incwm o enillion yswiriant bywyd, gwarantau a phartneriaethau'r Deyrnas Unedig**

Nodwch swm y llog / incwm a gawsoch dan y math(au) canlynol o incwm buddsoddi a chynilion:

- Llog o stociau ymyl aur a gwarannau eraill y DU – swm gros cyn treth
- Enillion polisi yswiriant bywyd y DU ac ati lle ystyriwyd y talwyd treth arnynt
- Enillion polisi yswiriant bywyd y DU ac ati lle na ystyriwyd y talwyd treth arnynt
- Enillion polisi yswiriant bywyd y DU ac ati gan ISAs a ddiddymwyd
- Eich cyfran o'r llog y codwyd treth arno ac ati
- Cyfanswm yr incwm o gynilion heb ei drethu, y codir treth o 20% arno
- Incwm trethedig, y codir treth o 10% arno
- Incwm trethedig, y codir treth o 20% arno

**c Incwm gan fuddsoddiadau a difidendau yn y DU**

Nodwch swm y llog / incwm a gawsoch dan y math(au) canlynol o incwm buddsoddi a chynilion:

- Difidendau gan gwmnïau yn y DU
- Difidendau eraill
- Difidendau Stoc
- Dosraniadau anghymwys a benthyciadau cwmni agos wedi'u dileu neu eu rhyddhau
- Cynlluniau cyfranddaliadau – swm trethadwy

**d Incwm gan fuddsoddiadau a difidendau tramor**

Nodwch swm y llog / incwm a gawsoch dan y math(au) canlynol o incwm buddsoddi a chynilion:

- Difidendau tramor
- Llog ac incwm arall gan gynilion tramor
- Difidendau gan gwmnïau tramor
- Incwm difidend a gafwyd gan berson mewn gwlad dramor

# Adran 12 Cwestiynau ariannol – parhad

**C4 A dderbynioch unrhyw fudd-daliadau trethadwy o fath arall?**

**P11D**

Dylech gyfuno'r holl fuddion ar ffurf rhoddion a gawsoch, gan nodi'r cyfanswm ar y ffurflen. Mae'r tabl canlynol yn cynnig dadansoddiad o'r hyn yr hoffem i chi ei gynnwys fel rhan o gyfanswm eich incwm gan 'fuddion ar ffurf rhoddion trethadwy' yn ystod blwyddyn dreth 2022-23:

- Asedau a oedd ar gael i gyflogeion (ceir, eiddo, nwyddau neu asedau eraill)
- Taliadau a wnaethpwyd ar ran y cyflogai
- Talebau a chardiau credyd
- Llety byw
- Lwfans milltiroedd a thaliadau teithiwr
- Cyfanswm sy'n gyfwerth ag arian parod o ran yr holl geir/faniau a oedd ar gael
- Cyfanswm sy'n gyfwerth ag arian parod o ran y tanwydd sydd ar gael ar gyfer yr holl geir/faniau
- Yr hyn y mae'n gyfwerth ag arian parod o ran benthyciadau, ar ôl didynnu unrhyw log a dalwyd gan y benthyciwr
- Yswiriant neu driniaeth feddygol breifat
- Buddion a thaliadau treuliau adleoli cymwys
- Gwasanaethau a ddarparwyd
- Eitemau eraill (gan gynnwys tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol)
- Taliadau treuliau a wnaethpwyd i, neu ar ran, y cyflogai

## Rhan B Incwm arall

**C1 A dderbynioch unrhyw incwm o hunangyflogaeth?**

**a Cyfanswm elw wedi'i addasu o fusnesau**

Cyfanswm yr elw wedi ei addasu o'r busnes hwn (wedi'i gyfuno ar gyfer gweithgarwch hunangyflogaeth lluosog)

**b Cyfanswm elw wedi'i addasu o bartneriaethau**

Cynnwys:

- Cyfran cyfanswm yr incwm trethedig a heb ei drethu ac eithrio'r hyn y codir treth o 10% ac 20% arno
- Eich cyfran o gyfanswm yr elw wedi'i addasu o'r partneriaethau

**C2 A dderbynioch unrhyw incwm fel Gweinidog crefyddol?**

Incwm trethadwy ar ôl tynnu'r treuliau (Gweinidogion yr Efengyl) na chawsant eu cynnwys yn eich P60 neu'ch P11D

# Adran 12 Cwestiynau ariannol – parhad

**C3** **A dderbynioch unrhyw incwm neu gyfandaliadau eraill trethadwy?**

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2022-23 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen.

- Incwm trethadwy arall – cyn cymryd treth a threuliau i ffwrdd
- Enillion tramor nad ydynt yn drethadwy yn y DU
- Cyfandaliadau trethadwy
- Cyfandaliadau neu fuddion a gafwyd gan Gynllun Buddion Ymddeol sy'n cael ei Gyllido gan Gyflogwr, ac eithrio pensiynau
- Diswyddo a chyfandaliadau eraill a thaliadau iawndal

**C4** **A dderbynioch unrhyw incwm o osod eiddo?**

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2022-23 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen.

- Incwm gan eiddo yn y DU
- Incwm gan dir neu eiddo tramor

**C5** **A dderbynioch unrhyw incwm o ymddiriedolaethau yn y DU?**

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2022-23 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen.

- Taliad incwm dewisol gan ymddiriedolaeth breswyl o'r DU – swm net
- Taliad incwm dewisol gan ymddiriedolaeth breswyl o'r DU – cyfanswm y taliadau gan ymddiriedolaethau budd setlwyr
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – swm net yr incwm nad yw'n incwm cynilion
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – swm net yr incwm gan gynilion
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – swm net yr incwm gan ddifidend
- Incwm sy'n drethadwy ar ymsefydlwyr
- Incwm gan ystadau yn y DU
- Incwm gan ystad dramor

# Adran 12 Cwestiynau ariannol – parhad

**C6 A dderbynioch unrhyw incwm o dramor?**

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2022-23 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen.

- Cyfanswm trethadwy gan bensiynau tramor, budd-daliadau nawdd cymdeithasol a breindaliadau ac ati.
- Cyfanswm trethadwy'r holl incwm arall a gafwyd gan berson mewn gwlad dramor ac unrhyw incwm tramor 'wedi'i neilltuo' a dalwyd
- Enillion ar waredu daliadau, cronfeydd tramor ac incwm dewisol gan ymddiriedolaethau amhreswyl
- Budd a gafwyd gan ymddiriedaeth dramor, cwmni neu unigolyn arall
- Enillion ar bolisïau bywyd tramor (swm yr enillion)

**C7 A dderbynioch unrhyw incwm o bensiwn tramor?**

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2022-23 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen.

- Gwerth buddion pensiwn yn ychwanegol i'ch Lwfans Oes sydd Ar Gael, a gymrwyd gennych fel cyfandaliad
- Swm y taliad anawdurdodedig gan gynllun pensiwn, nad yw'n unol â gordal
- Cyfanswm y taliad anawdurdodedig gan gynllun pensiwn, nad yw'n unol â gordal
- Ad-daliad gwasanaeth byr trethadwy cyfraniad (cynlluniau pensiwn tramor yn unig)
- Taliad budd marwolaeth cyfandaliad trethadwy (pensiynau tramor yn unig)

**C8 A dderbynioch unrhyw incwm ac enillion tramor eraill?**

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2022-23 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen.

- Swm yr hepgorion (eithriadau dan drefniadau trosglwyddo asedau tramor)

## Rhan C Didyniadau inwm

**C3 A fu gennych unrhyw gostau a ganiateir yr hawlioch ostyngiad yn y dreth arno?**

Isod, dylech gyfuno'r mathau o incwm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2022-23 a nodi'ch cyfanswm ar y ffurflen.

- Cyfanswm y treuliau a ganiateir
- Treth dramor nas hawliwyd gostyngiad credyd treth ar ei chyfer
- Treuliau cynhaliaeth a theithio busnes
- Didyniadau sefydlog ar gyfer treuliau
- Tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol
- Lwfansau cyfalaf a threuliau eraill

## Adran 13 Incwm trethadwy o’r tu allan i’r Deyrnas Unedig

**Incwm trethadwy o’r tu allan i’r Deyrnas Unedig**

Anfonwch dystiolaeth atom o’ch incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23.

Er enghraifft, anfonwch:

- a P60
- slip cyflog mis 12 neu slip cyflog wythnos 53
- llungopi o’ch ffurflen dreth ar-lein lawn derfynol
- datganiad blynyddol gan eich cwmni pensiwn neu’ch cwmni yswiriant

Rhaid i’r dystiolaeth yma gael cyfieithiad wedi ei ardystio i Saesneg neu Gymraeg.